CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**07.11.24**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** RJ (Cadeirydd) TAJ; AR; GW, JAJ; DAW; EO; JOJ; LLMH<br>**Ymddiheuriadau:** IW; DP: EY; RY<br>**Mynychu:** Cyng Llio Angharad; SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. Estynodd groeso arbennig i Cyng Llio Angharad i'w chyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb ac i LLMH gan ei llongyfarch ar ei hethol yn Aelod Seneddol Ynys Môn. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DAW ddiddordeb mewn mewn unrhyw drafodaeth ar faterion Cwmni Eiddo Cyf. |
| 3 | **Cofnodion 03.10.24**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 03.10.24 fel rhai cywir (AR/TAJ)<br><br>**Materion yn Codi**<br>• **Cynllun Gweithredu Priffyrdd CSYM –** dim diweddariad er anfon cais. Cytunodd Cyng. LLA i holi'r Adran.<br><br>• **Sul y Cofio –** Cydymdeimlwyd a theulu'r diweddar Barch Vaughan Prydderch yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl iawn. Diolchwyd i bawb sydd wedi gweithio hyd yma i drefnu'r gwasanaeth. Bydd gwasnaeth yn yr Eglwys yn dechrau am 9:45 – cyflwynodd LLM ei hymddiheuriadau. Nodwyd hefyd bod Cystadleuaeth Golff Llan |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | wedi codi £1850 o arian eleni at gynnal a chadw Cae Gofeb. Trafodwyd rhoi cydnabyddiaeth blynyddol i Richard Owen am ofalu am y Gofeb o gronfa Cae Gofeb, Cytunwyd yn unfrydol (TAJ/DAW) i roi £150<br><br>• **Coeden Nadolig –** trefniadau mewn llaw i osod y goeden trwy gefnogaeth RPO Williams. Cytunwyd i oleuo'r goeden nos Lun 2 Rhagfyr gyda Apel Yr Urdd Llannerchymedd yn trefnu miwsig, paned a mins pei. Clerc i gysylltu gyda Derek Evans Cadeirydd yr Apel<br><br>• **Caru Llan –** trafodwyd cynlluniau'r grwp i sefydlu trac beics i blant bach ar safle Cae Gofeb. Hwn fyddai Rhan 1 o'r cynlluniau gan sefyldu ardal chwarae plant hyn yn ddiweddarach. Yn dilyn trafodaeth cynnigiodd JAJ i wahodd swyddogion Caru Llan at y Cyngor er mwyn deall eu bwriadon yn well, eilwyd gan AR – Clerc i drefnu .<br><br>• **Paneli Solar –** nodwyd bod penderfyniad ar Alaw Môn wedi ei ohirio. Angen ymateb i ymgynghoriad Maen Hir erbyn 15/11/24 – Clerc i weithredu'r un sylwadau ag Alaw Môn.<br><br>• **Noddi Steddfod Urdd 2026 –** atgoffwyd yr aelodau eu bod wedi cytuno i noddi cystadleuaeth am £200. Cytunwyd i'r gystadleuaeth fod yn ymwneud a thelyn o gofio hanes cyfoethog Llan a thelynorio – Clerc i weithredu. Cytunwyd hefyd i gyfrannu trwy Cynllun CAMU – sef £20 y mis – Clerc i holi ymhellach.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn **– 07.11.24** |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**Cyflenwad Dwr yng Ngharmel –** adroddodd JOJ bod cryn dipyn o rwystredigaeth ym mhentref Carmel o ganlyniad i'w cyfenwad dwr gael ei droi ffwrdd yn rheolaidd. Cytunodd LLM i anfon at Dwr Cymru i geisio eglurhad ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.<br><br>**Trafnidiaeth ger Tan Parc** – nodwyd nad oes arwyddion 'Give Way' yma – cytunwyd i ychwnegu hwn at Gynllun Gweithredu Priffyrdd.<br><br>**Fflatiau ger Tafarn y Bull** – pryder am gwn peryg – Clerc i adrodd i'r Warden Cwn CSYM. Hefyd Cyng LLA i holi Pennaeth Adran Tai am y tir tu cefn a'i berchnogaeth.<br><br>**Swper Nadolig** – cytunwyd i geisio cael noson yng Nghaffi'r Stesion. Clerc drefnu amser a chylchredeg bwydlen mor fuan a bo modd. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau** |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Taliadau ers 3.10.24**<br>• Cyflog Clerc – Hydref = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM<br>• Prynu Peiriant ffrio i'r CAffi £858.88<br>• Bodorwedd – adeiladur HWB ad-daliad gan Loteri - £7171.45<br>• Scottish Power – trydam Uned 2 - £96.25<br>• Scottish Power – trydan CPD - £64.93<br>• Valiant – cost galw allan i drwsio'r boiler - £399<br>• HMRC – Cyflog Clerc Gorff/Awst/Medi - £495.40<br>• OTS Ltd – gosod y peiriant ffrio yny Caffi - £144<br>• JRB Enterprises – bagiau dal baw ci -£77.88<br>• 360 Ground care – gofal cae peldored – ad-daliad £480 - £576<br>• Nwy Prydain – trydan Clwb Bowlio - £21.40<br><br>**Biliau cyfredol** **£**<br><br>Gareth Parry – paentio rheiliau'r Gofeb £560<br>Elizabeth Kennet – ad-daliad paent, brwshis ayyb i'r Hwb £246.19 (ad-deliar gan arian Loteri)<br><br>Cyfrif Cyfredol: £11330.16<br>Cyfrif Cadw: £37638.24<br>. |
| 7 | **Materion Cynllunio**<br>FPL/2024/232 Llwybr Cae Peldroed – cymeradwy-wyd |
| 8. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** cyfeiriodd LLA at ymgynghoriad sy'n fyw ar hyn o bryd ar Wefan Cyngor Sir Ynys Môn yn holi barn trigolion am fywyd ar yr Ynys. Fe annogodd pawb i gymryd rhan ac i rannu'r manylion gydag eraill. |
| 9 | **Materion Safleoedd**<br>**Unedau Tan y Foel –** trafodaeth i ddilyn yn y flwyddyn newydd gyda Rhys Jones<br>**Safle'r Stesion –**. dim i law<br>**Lawnt Fowlio** – dim i law<br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br>**Mynwentydd** – Clerc i holi am brisiau giatiau newydd.<br>**Cae Gofeb –** trafodwyd eisoes |
| 10. | **Gohebiaeth**<br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd ar y Rhaglen - dim sylwadau pellach. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8:45* |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com